BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (CYFNEWIDFA GRESFFORDD, WRECSAM) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 201_

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru, ymhen nid llai na saith diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn, yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn diogelu defnyddwyr y ffyrdd a'r gweithlu tra bydd gwaith gosod wyneb newydd ar y gerbytffordd yn cael ei wneud ar Gefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wrth Gyffordd 6, Cyfnewidfa Gresffordd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Bydd y gwaharddiad dros dro canlynol, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn gweithredu o 09:30 o'r gloch ar 22 Mawrth 2010 tan 15:30 o'r gloch ar 25 Mawrth 2010 neu nes bydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd pob cerbyd a phob beiciwr rhag mynd at hyd cyfan y ffordd ymadael tua'r gogledd ar y gefnffordd wrth Gyffordd 6, Cyfnewidfa Gresffordd, Wrecsam.

Y llwybr amgen ar gyfer traffig sy'n mynd tua'r gogledd a beicwyr sydd am ymadael â'r gefnffordd wrth Gyffordd 6, Cyfnewidfa Gresffordd, Wrecsam fydd parhau tua'r gogledd ar y gefnffordd i Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd ac ymadael â'r gefnffordd. Ailymuno â'r gefnffordd ar y gerbytffordd tua'r de a pharhau i Gyffordd 6, Cyfnewidfa Gresffordd ac ymadael â'r gefnffordd.

Er mai dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis fan hwyaf fel darpariaeth wrth gefn petai angen ail amserlennu'r gwaith neu os petai angen gwaith ôl-ddilynol oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

**GELLIR CAEL COPI O'R HYSBYSIAD HWN MEWN PRINT BRAS GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, TRAFNIDIAETH AC ADFYWIO STRATEGOL, IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, Y GANGEN ORCHMYNION, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.**

## THE A483 TRUNK ROAD (GRESFORD INTERCHANGE, WREXHAM) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND CYCLISTS) ORDER 201_

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than seven days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The proposed Order is necessary to safeguard the road user and the workforce whilst carriageway resurfacing works are carried out on the Swansea - Manchester Trunk Road (A483) (hereinafter referred to as "the trunk road"), at Junction 6, Gresford Interchange in the County Borough of Wrexham.

The following temporary prohibition, the extent of which will be signposted accordingly, will operate from 09:30 hours on 22 March 2010 until 15:30 hours on 25 March 2010 or until the temporary traffic signs are removed.

The effect of the proposed Order will be to prohibit all vehicles and cyclists from proceeding in the entire length of the northbound off-slip road of the trunk road at Junction 6, Gresford Interchange, Wrexham.

The alternative route for northbound traffic and cyclists wishing to leave the trunk road at Junction 6, Gresford Interchange, Wrexham will be to continue northbound on the trunk road to Junction 7, Rossett Interchange and leave the trunk road. Rejoin the trunk road on the southbound carriageway and continue to Junction 6, Gresford Interchange and leave the trunk road.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division

**A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, TRANSPORT AND STRATEGIC REGENERATION, TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, ORDERS BRANCH, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.**